LLAIS PEDR

Gobeithio bod pawb yn mwynhau gwyliau haf hyfryd ac yn cael amser i ymlacio, ailwefru a threulio amser da gyda theulu a ffrindiau.

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch ein disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ar eu canlyniadau TGAU rhagorol. Rydym yn hynod falch o'u cyflawniadau a'r ymroddiad, y gwydnwch a'r gwaith caled y maent wedi'i ddangos drwy gydol eu hastudiaethau. Yn benodol, dylid canmol ein disgyblion Blwyddyn 10 am fod y garfan gyntaf i ymgymryd â'r cymwysterau TGAU modiwlaidd newydd eu diwygio. Maent wedi cofleidio'r heriau gydag aeddfedrwydd a dyfalbarhad, gan gyflawni canlyniadau y dylent fod yn hynod falch ohonynt.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n staff ymroddedig. Mae eu harbenigedd, eu hymrwymiad a'u cefnogaeth wedi chwarae rhan hanfodol wrth helpu ein disgyblion i gyflawni llwyddiant o'r fath.

Rydym hefyd yn gobeithio bod ein disgyblion Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn parhau i ddathlu eu canlyniadau Safon UG a Safon Uwch ac yn edrych ymlaen at eu gweld yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gam nesaf eu taith addysgol, prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a gyrfaoedd.

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i helpu disgyblion a theuluoedd i baratoi ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Mae dychweliad llwyddiannus i'r ysgol yn dechrau gyda bod yn barod i ddysgu o'r diwrnod cyntaf. Rydym yn annog pob disgybl i ddefnyddio wythnos olaf y gwyliau i sefydlu arferion iach, sicrhau bod ganddynt yr offer, y wisg a'r deunyddiau dysgu cywir, ac ymgyfarwyddo â'r wybodaeth allweddol sydd yn y cylchlythyr hwn. Mae bod yn drefnus ac yn barod yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym, meithrin hyder a gwneud dechrau cadarnhaol i'r tymor.

Wrth i wyliau'r haf ddod i ben, hoffwn ddymuno gweddill y gwyliau diogel, hapus a phleserus i bob aelod o gymuned ein hysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at groesawu pob disgybl yn ôl ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd gyffrous a llwyddiannus arall ac at weld pawb eto yn fuan iawn.

I hope everyone is enjoying a wonderful summer break and finding time to relax, recharge and spend quality time with family and friends.

Firstly, I would like to congratulate our Year 10 and Year 11 pupils on their excellent GCSE results. We are immensely proud of their achievements and the dedication, resilience and hard work they have shown throughout their studies. In particular, our Year 10 pupils should be commended for being the first cohort to undertake the newly reformed modular GCSE qualifications. They have embraced the challenges with maturity and determination, achieving results of which they should be extremely proud.

I would also like to take this opportunity to thank our dedicated staff, whose expertise, commitment and support have played a vital role in helping our pupils achieve such success.

We also hope that our Year 12 and Year 13 pupils are continuing to celebrate their AS and A Level results and look forward to seeing them progress successfully to the next stage of their educational journey, apprenticeships, training opportunities and careers.

This newsletter contains important information to help pupils and families prepare for the start of the new academic year. A successful return to school begins with being ready to learn from day one. We encourage all pupils to use the remaining week of the holiday to establish healthy routines, ensure they have the correct equipment, uniform and learning materials, and familiarise themselves with the key information contained in this newsletter. Being organised and prepared helps pupils settle quickly, build confidence and make a positive start to the term.

As the summer holiday draws to a close, I would like to wish all members of our school community a safe, happy and enjoyable remainder of the break.

Thank you for your continued support. We look forward to welcoming all pupils back for the start of another exciting and successful academic year and to seeing everyone again very soon.

Cofion cynnes,
Mrs Carys Morgan

CANLYNIADAU TGAU BL.11
YEAR 11 GCSE RESULTS

Llongyfarchiadau enfawr i'n holl ddisgyblion Blwyddyn 11 ar eu canlyniadau TGAU arbennig eleni. Rydym yn hynod falch o waith caled, ymroddiad a dyfalbarhad ein disgyblion. Rydym yn edrych ymlaen i groesawi canran uchel o ddisgyblion yn ôl i'n Chweched Dosbarth llwyddiannus ac yn dymuno'r gorau i bawb sy'n mynd ymlaen i astudio mewn coleg, dilyn prentisiaeth neu'n dechrau ym myd gwaith. Fel tîm o staff a llywodraethwyr, dymunwn pob hapusrwydd a llwyddiant iddynt ar gyfer y dyfodol. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch.

Diolch hefyd i'n staff ymroddedig am eu cefnogaeth, eu harweiniad a'u hymrwymiad parhaus i sicrhau'r gorau i'n disgyblion. Mae'r llwyddiant hwn yn adlewyrchiad o ymdrech pawb.

Many congratulations to all our Year 11 pupils on their excellent GCSE results this year. We are extremely proud of the hard work, dedication and perseverance of our pupils. We look forward to seeing a high proportion of pupils returning to our successful Sixth Form and wish those who will begin a course in college, an apprenticeship or a job all the very best. As a team of staff and governors, we wish them every happiness and success for the future. We are very proud of all of you.

Thank you also to our dedicated staff for their support, guidance and ongoing commitment to ensure the best for our pupils. This success is a reflection of everyone's effort.





CANLYNIADAU TGAU BLWYDDYN 11
YEAR 11 GCSE RESULTS

well done!

Wrth i ni ddathlu canlyniadau TGAU eleni, hoffem estyn llongyfarchiadau arbennig i'r disgyblion hynny sydd wedi cyflawni'r graddau uchaf ac wedi rhagori yn eu pynciau. Mae eu llwyddiant yn dyst i'w gwaith caled, eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad.

Ar yr un pryd, rydym yr un mor falch o bob un o'n disgyblion Blwyddyn 11. Mae pob canlyniad yn cynrychioli taith unigol, oriau o ymdrech ac ymrwymiad i gyrraedd nodau personol. Mae gweld ein pobl ifanc yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau yn ffynhonnell falchder mawr i'r ysgol gyfan.

As we celebrate this year's GCSE results, we would like to extend special congratulations to those pupils who have achieved the highest grades and excelled in their subjects. Their success is testament to their hard work, commitment and perseverance.

At the same time, we are equally proud of each of our Year 11 pupils. Each result represents an individual journey, hours of effort and commitment to reach personal goals. Seeing our young people move on to the next stage in their lives is a source of great pride for the whole school.

CANLYNIADAU TGAU GORAU:
BEST GCSE RESULTS:

GLESNI REES - 10A*, DIST*, 2A

WOODY LEWIS - 8A*, 3A, 1B, 1C

ELEN SISTO-JONES - 6A*, 7A

ALMA SPOONER - 6A*, 6A

IFAN DAVIES - 4A*, DIST*, 3A, 5B

JULIA KOSIDLO - 4A*, 6A, 1B, 1C

EDWARD WEEDON - 3A*, 5A, 4B, 1C

BRYCHAN WILLIAMS - 2A*, 11A

TRYSTAN BRYN EVANS - 2A*, 2 DIST*, 7A, 2B

FFLUR MEREDITH - 2A*, 6A, 4B, 1C

PETER BUGAJSKI - 2 DIST*, 6A, 5B

SAM SMITH - 1A*, 9A, 2B, 1C

GWENO JONES - 1A*, 7A, 1 DIST, 4B

CANLYNIADAU TGAU BL.10
YEAR 10 GCSE RESULTS

well done!

Rydym yn hynod falch o'n disgyblion Blwyddyn 10 a'u cynlyniadau rhagorol yn eu cymwysterau TGAU modiwlaidd. Fel y garfan gyntaf i ymgymryd â'r cymwysterau newydd eu diwygio hyn, maent wedi dangos gwydnwch, addasrwydd a dyfalbarhad rhyfeddol, gan lywio fframwaith asesu cwbl newydd gyda hyder ac aeddfedrwydd. Mae eu canlyniadau'n dyst i'r gwaith caled, yr ymrwymiad a'r agwedd gadarnhaol y maent wedi'u dangos drwy gydol y flwyddyn.

Ni fyddai'r llwyddiannau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ac ymroddiad ein staff. Hoffem estyn ein diolch diffuant i'r holl athrawon a staff cefnogi sydd wedi arwain, annog ac ysbrydoli ein disgyblion bob cam o'r ffordd. Mae eu harbenigedd, eu hymrwymiad a'u gofal wedi chwarae rhan hanfodol wrth helpu'r garfan hon i gyflawni'r canlyniadau gwych yma.

Llongyfarchiadau i bob disgybl Blwyddyn 10 ar y garreg filltir arwyddocaol hon – maent wedi gosod esiampl wych i garfannau'r dyfodol, ac edrychwn ymlaen at ddathlu eu llwyddiant parhaus yn y blynyddoedd i ddod.

CANLYNIADAU BLWYDDYN 10 GORAU:

BEST YEAR 10 RESULTS:

LYRA WATERS NEALE - 7A*, 4A
NON EVANS - 4A*, 4A, 1B
JIAMING LI - 3A*, 4A, 1B
CARYS WALL - 3A*, 4A, 1B
JOSEPH PALMER - 2A*, 6A, 1B
JOSHUA DRURY - 2A*, 5A, 2B
PAIGE DEEMING - 2A*, 2A, 3B, 3C
DEINA EVANS - 2A*, 2A, 3B, 1C
HARRY CONDON - 2A*, 2A, 3B
CALEB HALE - 2A*, 2A, 2B, 1C
ALOMA CAYO EVANS - 2A*, 1A, 4B, 2C
CHLOE BAKER - 1A*, 4A, 4B, 1C
ARLO MOSS - 1A*, 4A, 2B
BEN HALL - 1A*, 3A, 4B
MEGAN HUGHES - 1A*, 3A, 2B, 2C
THIN JONES-THOMAS - 1A*, 2A, 4B, 1C
ABIGAIL GREEN 8A, 2B, 1C
MAISIE SUTTON 4A, 4B, 2C
LEON MORGAN - 4A, 3B, 3C
MATEUSZ LISIECKI - 4A, 1B, 1C
ETHAN REES - 3A, 4B, 1C

We are incredibly proud of our Year 10 pupils and their excellent achievements in their modular GCSE qualifications. As the first cohort to undertake these newly reformed qualifications, they have shown remarkable resilience, adaptability and determination, navigating an entirely new assessment framework with confidence and maturity. Their results are a testament to the hard work, commitment and positive attitude they have demonstrated throughout the year.

These successes would not have been possible without the support and dedication of our staff. We would like to extend our sincere thanks to all teachers and support staff who have guided, encouraged and inspired our pupils every step of the way. Their expertise, commitment and care have played a vital role in helping this cohort achieve such impressive outcomes.

Congratulations to every Year 10 pupil on this significant milestone - they have set a wonderful example for future cohorts, and we look forward to celebrating their continued success in the years ahead.

BLE I FYND? WHERE TO GO?

Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld ar dydd Iau, 03/09/26. Pan fydd y gloch cyntaf yn canu, gofynnwn i bawb fynd i'r mannau canlynol i gwrdd â'ch tiwtoriaid dosbarth.

We are looking forward to seeing everyone on Thursday, 03/09/26. When the morning bell sounds, please can all pupils go to the following areas to meet your form tutors.

- BLWYDDYN/YEAR 7 - Neuadd/Hall (mi fydd athrawon yn eich croesawu wrth y bysiau / teachers will meet you off the buses)
- BLWYDDYN/YEAR 8 - Ystafell Gotiau 7-9 / Yr7-9 Cloakrooms
- BLWYDDYN/YEAR 9 - Ystafell Gotiau 10-11 / Yr10-11 Cloakrooms
- BLWYDDYN/YEAR 10/11 - Gampfa / Gym
- BLWYDDYN/YEAR 12/13 - Ffreutur / Canteen

TIWTORIAID DOSBARTH / FORM TUTORS

ATHRAWON DOSBARTH BLWYDDYN 7 / YEAR 7 FORM TUTORS

7 DEWI - Miss Meleri Morgan - Stiwdio Ddrama
7 NON - Mrs Ceris Jones - Ystafell 6
7 PEDR - Mr Llyr Jones - Ystafell 2
7 GWENOG - Miss Cari Lake - Ystafell 22

ATHRAWON DOSBARTH BLWYDDYN 8 / YEAR 8 FORM TUTORS

8 DEWI - Mrs Carwen Jones - Caban 1
8 NON - Mr Joe Jenkins - Ystafell 13
8 GWENOG - Mrs Christina Garside / Miss Sian Jones- Ystafell 21
8 STEFFAN - Miss Ceri Thomas - Ystafell 28

ATHRAWON DOSBARTH BLWYDDYN 9 / YEAR 9 FORM TUTORS

9 DEWI - Mrs Edwina Rees - Ystafell 7
9 NON - Mrs Enfys Powell - Ystafell 9
9 GWENOG - Mr Ben James - DT2

TIWTORIAID DOSBARTH / FORM TUTORS

ATHRAWON DOSBARTH BLWYDDYN 10 / YEAR 10 FORM TUTORS

10 DEWI - Mrs Delyth Hallows - Ystafell 19

10 NON - Miss Hawis Lloyd / Mrs Nerys Beaumont Douch - Ystafell 5

10 PEDR - Miss Hannah Parr - Ystafell 4

10 GWENOG - Mrs Robyn Craven a Mrs Luned Hughes - Gwydd 1

ATHRAWON DOSBARTH BLWYDDYN 11 / YEAR 11 FORM TUTORS

11 DEWI - Mrs Heledd Dafis - DT4

11 NON - Miss Melanie Hands - Ystafell 11

11 GWENOG - Mr Ben LunnYstafell 16

11 STEFFAN - Mr Daryl Phillips - Gwydd 4

11 FFRANGEG - Madame Geinor Cuvillier - Ystafell 25

ATHRAWON DOSBARTH BLWYDDYN 12+13 / YEAR 12+13 FORM TUTORS

12 DEWI - Mrs Emma Hall - Caban 5

12 NON - Mrs Carys Phillips - Ystafell 18

13 - Miss Carys Jones - Ystafell 29

Cynradd / Primary

Yr un drefn ag arfer - cyrraedd cyn 8.45yb ac mi fydd athrawon yno wrth y drws i groesawu'r disgyblion.

The usual arrangements- arrive before 8.45 am and the teacher will be there to meet and greet your children.

BAROD I DDYSGU
READY TO LEARN

Wrth edrych ymlaen at groesawu pawb yn ôl ym mis Medi, rydym yn awyddus i sicrhau bod pob disgybl yn dechrau'r flwyddyn academaidd yn hapus ac yn barod i ddysgu. Pan fydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol wedi'u paratoi'n dda ac yn ymwybodol o'r disgwyliadau ynghylch ymddygiad, gwisg ysgol ac offer, mae'n ein galluogi i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf oll, sef eu lles, eu cynnydd a'u llwyddiant. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu pob disgybl i gael dechrau cadarnhaol i'r tymor newydd a chreu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn gallu ffynnu. Rydym yn hynod ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi'n fawr y bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref.

Wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, mae angen sicrhau bod gan bob disgybl yr offer angenrheidiol. Dylai pob disgybl feddu ar y canlynol: bag ysgol, cas pensil, beiro du neu glas, beiro gwyrdd, pensil, naddwr, rwber, pren mesur, cyfrifiannell, onglydd a chwmpawd.

Rydym yn deall y gall offer gael ei anghofio neu fynd ar goll o bryd i'w gilydd. Mewn achosion o'r fath, bydd yr ysgol yn gallu darparu'r offer angenrheidiol. Fodd bynnag, rydym yn annog ein disgyblion i ddatblygu arferion trefnus drwy ofalu am eu hoffer a pharatoi eu bag ysgol y noson gynt, gan sicrhau bod ganddynt yr offer a'r llyfrau cywir ar gyfer y diwrnod canlynol.



Looking forward to welcoming everyone back in September, we are keen to ensure that every pupil starts the academic year happy and ready to learn. When pupils arrive at school well prepared and aware of our expectations regarding behaviour, school uniform and equipment, it enables us to focus on what matters most: their wellbeing, progress and success. By working together, we can help every pupil make a positive start to the new term and create an environment where everyone feels safe, supported and able to thrive. We are extremely grateful for, and greatly value, the partnership between school and home.

As we prepare for the new academic year, it is important to ensure that every pupil has the necessary equipment. All pupils should have the following items: a pencil case, a black or blue pen, a green pen, a pencil, a pencil sharpener, an eraser, a ruler, a calculator, a protractor and a compass.

We understand that equipment can occasionally be forgotten or misplaced. In such cases, the school will be able to provide the necessary items. However, we encourage our pupils to develop good organisational habits by taking care of their equipment and packing their school bag the night before, ensuring they have the correct equipment and books for the following day.

POCEDI YONDR
YONDR POUCHES

Wrth i ni baratoi i groesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol, hoffem atgoffa pob disgybl Blwyddyn 8-11 i ddod â'u poced Yondr gyda nhw ar ddiwrnod cyntaf y tymor, dydd Iau 3ydd o Fedi. Cadwodd ein disgyblion eu pocedi dros wyliau'r haf a dylent sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio o'r diwrnod cyntaf.

Mae ein rhaglen Yondr yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ein diwylliant ysgol di-ffôn, gan helpu disgyblion i ganolbwyntio ar ddysgu, ymgysylltu'n gadarnhaol â'u cyfoedion, a gwneud y gorau o'u hamser yn yr ysgol heb dyfeisiau symudol i dynnu sylw disgyblion. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus teuluoedd wrth gynnal y diwylliant cadarnhaol yma.

Gwiriwch fod poced eich plentyn mewn cyflwr da cyn dychwelyd i'r ysgol. Bydd tâl amnewid o £15 am gwdyn coll neu wedi'i ddifrodi.

Wrth i ni agosáu at wythnos olaf gwyliau'r haf, byddem hefyd yn annog rhieni a gofalwyr, lle bo modd, i helpu disgyblion i leihau eu hamser sgrin yn raddol ac ailsefydlu arferion iach i baratoi ar gyfer y tymor newydd. Gall newidiadau bach i arferion amser gwely a defnyddio dyfeisiau wneud y dychweliad i'r ysgol yn llawer llyfnach a helpu disgyblion i ddechrau'r flwyddyn gan deimlo'n ffres ac yn barod i ddysgu.

Nid oes angen i ddisgyblion Blwyddyn 7 ddod â chwdyn Yondr. Byddant yn derbyn eu cwdyn a chyflwyniad i'r rhaglen ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at groesawu pob disgybl yn ôl ar ddydd Iau, 3ydd o Fedi.

As we prepare to welcome pupils back to school, we would like to remind all Year 8-11 pupils to bring their Yondr pouch with them on the first day of term, Thursday, 3rd of September. Pupils kept their pouches over the summer holidays and should ensure they are ready for use from day one.

Our Yondr programme plays an important role in supporting our phone-free school culture, helping pupils to focus on learning, engage positively with their peers, and make the most of their time in school without the distraction of mobile devices. We are grateful for the continued support of families in maintaining this approach.

Please check that your child's pouch is in good condition before returning to school. Lost or damaged pouches will incur a replacement charge of £15.

As we approach the final week of the summer holiday, we would also encourage parents and carers, where possible, to help pupils gradually reduce their screen time and re-establish healthy routines in preparation for the new term. Small changes to bedtime habits and device use can make the return to school much smoother and help pupils start the year feeling refreshed and ready to learn.

Year 7 pupils do not need to bring a Yondr pouch. They will receive their pouch and an introduction to the programme on their first day at school.

Thank you for your continued support. We look forward to welcoming all pupils back on Thursday, 3rd of September.

YONDR

PHONE-FREE SPACES

GWISG YSGOL
SCHOOL UNIFORM

DRESS for SUCCESS

Mae gwisg yn rhan bwysig o hunaniaeth ysgol. Mae'n atgyfnerthu pwy ydym ni fel cymuned ac yn helpu myfyrwyr i deimlo balchder yn ein hysgol. Teimlwn fod cysondeb yn beth hanfodol i'n holl ddisgyblion felly gyda hyn mewn golwg, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa o'n rheolau gwisg ysgol cyn y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi. Yr un rheolau gwisg i'r cynradd ond nid oes angen i'r cynradd i wisgo crys a thei.

Dress is an important part of a school's identity. It reinforces who we are as a community and helps students feel pride in our school. We feel that consistency is essential for all our pupils so with this in mind, we would like to take this opportunity to remind you of our school uniform rules before the new academic y in September. Same rules apply for the primary sector - but no need for shirts and ties in the primary.

Esgidiau ysgol du plaen (dim logo lliw)
Plain black school shoes (no coloured logo)

Trowsus ysgol du plaen o ddeunydd traddodiadol - dim jîns, jeggings, tracwisg a leggings
Plain black school trousers of traditional material - no jeans, jeggings, tracksuit and leggings

Siorts ysgol (Pasg tan hanner tymor yr Hydref) - siorts du plaen, wedi'u teilwra (nid siorts chwaraeon)
School shorts (Easter to Autumn half term) - plain black, tailored shorts (not sports shorts)

Sgert ysgol - sgert ddu, blaen hyd y benglin gyda theits trwchus du. Ni chaniateir sgertiau gwneuthuriad lycra na rhai mini
School skirt - plain black knee length skirt with thick black tights. No lycra or mini skirts allowed

Siwmperi a fflîs ysgol - siwmperi marl llwyd gwddf-V wedi'u gwau neu fflîs ysgol ddu gyda sip llawn / fflîs chwarter sip ddu gyda logo'r ysgol arni
Sweaters and school fleece - V-neck grey marl knit sweaters or black school fleece with full zip OR a black quarter zip fleece with our school logo on it

Crys - crys gwyn gyda thei swyddogol yr ysgol neu grys polo porffor. Ni chaniateir crys gwyn heb dei
Shirt - white shirt with official school tie or purple polo shirt. A white shirt without a tie is not permitted

Disgwyliad i bawb wisgo cyrs gwyn a thei ysgol
Expectation for all pupils to wear a white shirt and school tie
Opsiwn o fflîs chwarter sip ddu gyda logo'r ysgol
Option of black quarter zip fleece with school log

Hwdis a siwmperi du coler cylch - nid yw hwdis a siwmperi du coler cylch yn rhan o'r rheolau gwisg ysgol. Bydd unrhyw hwdi neu siwmper ddu gyda coler cylch yn cael eu cymryd oddi wrth ddisgyblion ym mis Medi. Mae siwmper a chardigan ysgol ar gael ynghyd â dau wahanol fath o fflîs ysgol felly mae rhywbeth at ddant pawb.

Hoodies and black round neck sweaters - hoodies and black round neck sweaters are not part of our school uniform rules. Any black hoodie or jumper with a round neck collar will be taken from pupils in September. There is a school jumper and cardigan available along with two different types of school fleece so there is something for everyone.

GWISG YSGOL
SCHOOL UNIFORM

DRESS for SUCCESS

CYFLENWYR GWISG YSGOL
SCHOOL UNIFORM SUPPLIERS

GG Designs:
https://www.ggdesignsonline.com
07969295206
info@ggdesignsonline.com

GG DESIGNS
PRINTING AND EMBROIDERY

Lois Designs
Embroidery & Printwear
Signs & Vehicle Graphics

Lois Designs:
https://www.loisdesigns.co.uk
01545 590534
loisdesigns@yahoo.com

Calon
Custom Clothing
Embroidery & Printing

Calon Custom Clothing
07873 592204
caloncustomclothing@hotmail.com

GRANT HANFODION YSGOL
SCHOOLS ESSENTIALS GRANT

Os oes angen cefnogaeth ar unrhyw deulu o ran gwisg ysgol, cysylltwch yn syth gyda'r ysgol am gymorth. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi teuluoedd sy'n gymwys gyda chostau hanfodion a gwisig ysgol drwy Grant Hanfodion Ysgol:

www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/grant-hanfodion-ysgol/

If any family needs support in terms of school uniform, contact the school immediately for help. In addition, the Welsh Government is able to support eligible families with the costs of essentials and school uniforms through the School Essentials Grant:

www.ceredigion.gov.uk/resident/schools-education/school-essentials/

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

SIED SIARIO

Helpwch ni i helpu eraill!

Os oes gennych chi unrhyw eitemau **o wisg ysgol** nad ydych yn eu defnyddio bellach, **dewch à nhw i mewn i'r Sied Siario.** Bydd eich rhodd yn helpu teuluoedd eraill yn ein cymuned.

SIED SIARIO

Help us to help others!

If you have any items of **gwisg ysgol** that you no longer use, **please bring them in to the Sied Siario.** Your donation will make a big difference to other families in our community.

Diolch yn fawr! *Thank you very much!*

CYLCH MEITHRIN PONT PEDR

Bydd Cylch Meithrin Pont Pedr yn ailagor ar ddydd Iau, 3ydd o Fedi am 8:30yb.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld pawb nôl yn ein Cylch Meithrin er mwyn dechrau blwyddyn newydd llawn hwyl, chwarae a dysgu.

Mae Cylch Meithrin Pont Pedr yn dymuno pob lwc i'r rhai bach sy'n dechrau'r ysgol am y tro cyntaf, ac i'r plant sy'n mynd i'r ysgol yn llawn amser. Bydd ein Cylch Meithrin yn meddwl amdanoch ac yn dymuno pob lwc i chi ar eich antur newydd.

Cylch Meithrin Pont Pedr will reopen on Thursday, 3rd September at 8:30am.

We are really looking forward to seeing everyone back in our Cylch Meithrin to start a new year full of fun, play and learning.

Cylch Meithrin Pont Pedr wishes the little ones who are starting school for the first time, and the children who will be going to school full time, the best of luck. Our Cylch Meithrin will be thinking of you and wishing you the best of luck on your new adventure.

Mae Cylch Meithrin Pont Pedr yn chwilio am berson addas i lenwi swydd..

Staff Banc

Lleoliad: Cylch Meithrin Pont Pedr, Ysgol Bro Pedr

Cyflog: £12.77 yr awr

Cymwysterau: Lefel 3 Gofal Plant

Dyddiad dechrau: Mor gynted â phosib

Dyddiad cau: 7fed o Fedi 2026

Cysylltwch: cmpontpedr@gmail.com / 07990499498

Cylch Meithrin Pont Pedr are looking for a suitable person for this job role..

Bank Staff

Location: Cylch Meithrin Pont Pedr, Ysgol Bro Pedr

Salary: £12.77 an hour

Qualifications: Level 3 Childcare

Start date: As soon as possible

Dyddiad cau/Closing date: 7th of September 2026

Contact: cmpontpedr@gmail.com / 07990499498

Cylch Meithrin Pont Pedr

Llefydd Prynhawn ar gael

Afternoon Spaces available

£6.25
yr awr / an hour

Cysylltwch â / Contact:
Annwen Thomas
cmpontpedr@gmail.com
07990499498

GWOBRAU CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN 2026
LAMPETER TOWN COUNCIL AWARDS 2026

Mae Gwobrau Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn dathlu arwyr di-glod Llanbed, sy'n gwneud gwahaniaeth trwy gyfrannu at fywyd cymunedol, ac yn defnyddio eu hamser i helpu ac ysbrydoli eraill. Maent hefyd yn cydnabod cyflawniadau rhagorol pobl leol ym mhob rhan o fywyd Llanbed.

Rhaid i enwebeion fyw o fewn y Ward Etholiadol, gweithio, astudio neu gael busnes yn y dref. Rhaid iddynt ddangos cyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau cymunedol lleol fel digwyddiadau trefol.

Os ydych yn dymuno enwebu grŵp, busnes neu berson ar gyfer gwobr, gallwch wneud hyn wrth llenwi ffurflen enwebu drwy'r linc QR sydd ar y poster. Mae ffurflenni papur hefyd ar gael gan Cadi & Grace a Llyfrgell Llanbed.

Dyddiad cau enwebu – Dydd Llun, 31ain o Awst

The Lampeter Town Council Awards celebrate the unsung heroes of Lampeter, who make a difference by contributing to community life, and use their time to help and inspire others. They also recognise the outstanding achievements of local people in all areas of Lampeter life.

Nominees must live within the Electoral Ward, work, study or have a business in town. They must show an active involvement in local community activities such as town events.

If you wish to nominate a group, business or person for an award you can do so by a nomination form, via the QR link on the poster. Paper forms are also available from Cadi & Grace and Lampeter Library

Closing date for nominations – Monday, 31st of August

GWOBRAU CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN 2026
LAMPETER TOWN COUNCIL AWARDS 2026

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn / Volunteer of the Year Award

Dyfernir i unigolyn sydd wedi mynd y tu hwnt i hynny, tra'n gwneud cyfraniad eithriadol i wella bywydau aelodau'r gymuned neu'r gymuned yn gyffredinol.

Awarded to an individual who has gone above and beyond, whilst making an outstanding contribution to improving the lives of community members or the community in general.

Gwobr Athro, Arweinydd Ieuenctid neu Hyfforddwr y Flwyddyn / Teacher, Youth Leader or Coach of the Year Award

Dyfernir i berson sydd wedi ysbrydoli pobl ifanc naill ai ym mywyd yr ysgol neu mewn clybiau a grwpiau lleol.

Awarded to a person who has inspired young people either in school life or in local clubs and groups.

Gwobr Chwaraewr y Flwyddyn / Sportsperson of the Year Award

Dyfernir i chwaraewr sydd wedi cyflawni rhagoriaeth ar lefel leol, genedlaethol neu rhyngwladol yn y gamp o'u dewis.

Awarded to a sportsperson who has achieved excellence on a local, national level in their chosen sport.

Gwobr Tîm Chwareaon y Flwyddyn / Sports Team of the Year Award

Dyfernir i dîm sydd wedi cyflawni rhagoriaeth ar lefel leol, genedlaethol neu rhyngwladol yn y gamp o'u dewis.

Awarded to a sports team which has achieved excellence on a local, national or international level in their chosen sport.

Gwobr Cyfraniad Amgylcheddol y Flwyddyn / Environmental Contribution of the Year Award

Dyfernir i berson, grŵp, sefydliad neu fusnes sydd wedi helpu i wella ôl troed amgylcheddol y dref.

Awarded to a person, group, organisation or business who have helped to improve the town's environmental footprint.

Gwobr Busnes Lleol y Flwyddyn / Local Business of the Year Award

Dyfernir i fusnes sydd wedi cyflawni rhagoriaeth trwy eu perfformiad, eu cyfraniad i'r economi leol neu ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid.

Awarded to a business that has achieved excellence through their performance, contribution to the local economy or provision of customer service.

Gwobr Cyfraniad Cymunedol / Community Contribution Award

Dyfernir i grŵp o bobl sydd wedi gwneud cyfraniad neilltuol, drwy weithio er budd ein cymuned ac i helpu eraill.

Awarded to a group of people who have made an outstanding contribution, by working for the benefit of our community and to help others.

Gwobr am gyfraniad i'r Celfyddydau Mynegiannol / Award for contributions to the Expressive Arts

Dyfernir i'r unigolyn, sydd wedi cyflawni rhagoriaeth ym maes cerddoriaeth neu celfyddydau neu sydd wedi cefnogi eraill i gyflawni rhagoriaeth.

Awarded to the individual, who has achieved excellence in the field of music or the Arts or who has supported others in achieving excellence.

Gwobr Iaith Gymraeg/Diwylliant / Welsh Language/Culture Award

Dyfernir i unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd wedi helpu i hyrwyddo'r Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru.

Awarded to a person, group or organisation who has helped promote the Welsh language/culture.

Gwobr Person Ysbrydoledig / Inspirational Person Award

Dyfernir i berson sy'n haeddu cydnabyddiaeth am ei benderfynoldeb yn wyneb adfyd.

Awarded to a person who deserves recognition for their determination in the face of adversity.

Gwobr Arwr Ddi-glod / Unsung Hero Award

Dyfernir i unigolyn y mae ei ymroddiad diwyro, ei ymrwymiad a'i wasanaeth wedi gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaol i'r gymuned.

Awarded to an individual whose unwavering dedication, commitment, and service have made a significant and lasting contribution to the community.

Gwobr Hag Harries / Hag Harries Award

Dyfernir yn dilyn cais llwyddiannus unigolyn, sy'n dymuno dilyn meysydd cerddoriaeth, busnes, addysg a hyfforddiant.

Ffurflen gais ar gael ar wefan y Cyngor ac ffurflenni papur hefyd ar gael gan Cadi & Grace a Llyfrgell LLanbed

Awarded following the successful application of an individual, wishing to pursue areas of music, business, education and training.

Application form available on the Lampeter Town Council Website and also paper forms are available from Cadi & Grace and Lampeter Library

Cyngor Tref Llanbed

Lampeter Town Council

GWOBRAU LLANBED
LAMPETER AWARDS

ENWEBIADAU AR GYFER GWOBRAU LLANBED
NOMINATIONS FOR LAMPETER AWARDS

AR AGOR/OPEN

4/7/26-31/8/26

AM RAGOR O WYBODAETH
FOR MORE INFORMATION:

WWW.LAMPETER-TC.ORG.UK

NEU DEFNYDDIWCH Y LINC ISOD/OR USE LINK BELOW

trac cymru

Oedran 11-18

GWERIN GWALLGO

Cwrs Gwerin Ieuenctid Preswyl 4 Diwrnod

Offerynnau - Canu - Clocsio

Hanner Tymor Hydref

£260

Bwrsariaethau Ar Gael

Dosbarthiadau Grŵp gyda thiwtoriaid blaenllaw o Gymru
Gweithgareddau Awyr Agored · Chwarae Ensembl
Dosbarthiadau Dewisol · Twmpathau · 3 Phryd y Dydd

Hydref 26 - 29ain 2026

Gwersyll yr Urdd Glan Llyn, Bala, LL23 7ST

www.trac.cymru/gwerin-gwallgo

Sganiwch am ffurflen archebu!

Glan-llyn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

trac cymru

Ages 11-18

GWERIN GWALLGO

4 Day Residential Youth Folk Course

Instrumental - Song - Clog Dance

Oct Half Term



£260

Bursaries Available

Group Classes with Leading Welsh Folk Tutors
Twmpathau · Optional Classes · 3 Meals a Day
Ensemble Playing · Outdoor Activities

October 26 - 29th 2026

Gwersyll yr Urdd Glan Llyn, Bala, LL23 7ST

www.trac.cymru/gwerin-gwallgo

Scan for booking form!

Glan-llyn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

trac cymru

Oedran 8-13

GWERIN IAU

Cwrs Gwerin Iau Preswyl 3 Diwrnod

Offerynnau - Canu - Clocsio

£180

Bwrsariaethau Ar Gael

Cyflwyniad i Gelfyddydau Traddodiadol Cymru
Dysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd!
Dosbarthiadau Grŵp · 3 Phryd y Dydd
Gweithgareddau Awyr Agored

Sganiwch am ffurflen archebu!

Rhagfyr 4ydd - 6ed 2026

Gwersyll yr Urdd Glan Llyn, Bala, LL23 7ST

www.trac.cymru/gwerin-iau

Glan-llyn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

trac cymru

Ages 8-13

GWERIN IAU

3 Day Residential Junior Folk Course

Instrumental - Song - Clog Dance



£180

Bursaries Available

Introduction to Welsh Traditional Arts
Learning new skills and making new friends!
Group Classes · Outdoor Activities · 3 Meals a Day

December 4 - 6th 2026
Gwersyll yr Urdd Glan Llyn, Bala, LL23 7ST
www.trac.cymru/gwerin-iau

Scan for booking form!

Glan-llyn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

PENWYTHNOS MYNYDDA

02-04 HYDREF 2026

G-LL ISA'

GWERSYLL GLAN-LLYN ISA'

BLWYDDYN 10-13
£159

DARPARIAETH DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

DYDDIAD CAU A BLAENDAL: MEDI 18 2026 £50

TALIAD LLAWN: MEDI 28 2026

I ARCHEBU NEU AM FWY O FANYLION
01678541000 NEU LLINOSJW@URDD.ORG

NID OES BWS YN CAEL EI DREFNU AR GYFER Y CWRS HWN

COFIWCH/REMEMBER

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
1.9.26	HMS INSET	Pawb All
2.9.26	HMS INSET	Pawb All
3.9.26	Diwrnod dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi September return to school day	Pawb All
16.11.26	HMS INSET	Pawb All
30.4.27	HMS INSET	Pawb All
16.7.27	Diwrnod Ola'r Tymor Last Day of Term	
20.10.27	Noson Rieni Blwyddyn 11 Year 11 Parents Evening	11
20-21.10.27	Noson Rieni Meithrin - 6 Meithrin - Year 6 Parents Evening	Meithrin-Bl.6
10.11.27	Noson Rieni Blwyddyn 13 Year 13 Parents Evening	13
1.12.27	Noson Rieni Blwyddyn 12 Year 12 Parents Evening	12
2.2.27	Noson Rieni Meithrin - 2 3- 6 Parents Evening	Meithrin-Bl.6
16.2.27	Noson Rieni Blwyddyn 10 Year 10 Parents Evening	10
6.4.27	Noson Rieni Blwyddyn 9 Year 9 Parents Evening	9
20.4.27	Noson Rieni Blwyddyn 7 Year 7 Parents Evening	7
4.5.27	Noson Rieni Blwyddyn 8 Year 8 Parents Evening	8